# Cynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint 2011 – 2014: "Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol"



## Ein gweledigaeth 2011 – 2014
## "Bydd holl blant, pobl ifanc a theuluoedd Sir y Fflint yn ddiogel, yn iach ac yn rhydd o dlodi, anfantais ac anghydraddoldebau cyfle"

SIR Y FFLINT MEWN PARTNERIAETH
FLINTSHIRE IN PARTNERSHIP

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# RHAGAIR

Ar ran y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, rydym yn falch eich croesawu i ‘Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol’ - ail Gynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Sir y Fflint. Mae’r cynllun yn berthnasol i bob plentyn, person ifanc a theulu, a’r gwasanaethau a sefydliadau hynny sy’n gweithio gyda nhw.

Mae’r Cynllun hwn yn ganlyniad gwaith gyda nifer fawr o unigolion, grwpiau a sefydliadau. Wrth ddatblygu ein cynllun, rydym wedi ymgysylltu’n eang â rhanddeiliaid i wneud y cynllun hwn yn gyfrwng i gyflwyno canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pob plentyn, person ifanc a theulu yn Sir y Fflint.

Rhoddodd y Cynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc blaenorol (2008 - 2011) sylfeini cryf ar waith ar gyfer arferion cydweithio yn Sir y Fflint a gyda’n partneriaid rhanbarthol. Rydym eisoes yn cyflwyno canlyniadau gwell ar gyfer ein plant a phobl ifanc, a amlygwyd gan dystiolaeth adroddiadau arolygu ac asesiadau allanol cadarnhaol diweddar. Rydym wedi cryfhau ein dull gweithio mewn partneriaeth er mwyn galluogi pob sefydliad ac unigolyn i ddeall sut y gellir cyflawni’r canlyniadau o fewn y cynllun hwn. Rydym hefyd wedi gwella ein defnydd o ddata poblogaeth a rheoli fel y gallwn wneud penderfyniadau gwybodus gwell ynglŷn â blaenoriaethau, a sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau i gyflwyno’r weledigaeth gytûn.


Fel rhan o ‘Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol’, bydd Bwrdd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn parhau i ymgysylltu â phob unigolyn, grŵp, sefydliad a gwasanaeth er mwyn sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithiol i fodloni anghenion plant, phobl ifanc a theuluoedd yn Sir y Fflint. Bydd yr ymrwymiad hwn yn sicrhau ein bod ni’n cyflawni ein gweledigaeth – bod holl blant, pobl ifanc a theuluoedd Sir y Fflint yn ddiogel, yn iach ac yn rhydd o dlodi, anfantais ac anghydraddoldebau cyfle.






Colin Everett
Prif Weithredwr,
Cyngor Sir y Fflint






Mary Burrows
Prif Weithredwr Betsi Cadwalader Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader





Ian Budd
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes (Cadeirydd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc), Cyngor Sir y Fflint





Yr Athro Merfyn Jones
Cadeirydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader

# CYNNWYS


**Cyflwyniad** 3

- *Beth yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc?* 3
- *Beth yw Cynllun y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc?* 3
- *Cyflawni ein cyfrifoldebau* 4

**Byw yn Sir y Fflint – yr hyn rydym ni ei eisiau ar gyfer ein plant, pobl ifanc a theuluoedd** 5

**Gwneud iddo ddigwydd** 6

- *Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol yng Nghymru* 8
- *Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol yn Sir y Fflint* 8
- *Symud Ymlaen* 9

**Maes Gweithredu 1:** ***Sicrhau y gofelir am blant a phobl ifanc*** 10

**Maes Gweithredu 2:** ***Bod plant a phobl ifanc yn barod, yn abl ac yn cael eu hannog i ddysgu*** 13

**Maes Gweithredu 3:** ***Bod gan blant a phobl ifanc ffordd iach o fyw*** 16

**Maes Gweithredu 4:** ***Bod plant a phobl ifanc yn cael amser a lle i chwarae, a chymryd rhan mewn gweithgareddau*** 19

**Maes Gweithredu 5:** ***Bod plant a phobl ifanc yn cael eu parchu ym mhob rhan o'u bywydau*** 22

**Maes Gweithredu 6:** ***Bod plant a phobl ifanc yn ddiogel*** 25

**Maes Gweithredu 7:** ***Bod gan blant, pobl ifanc a theuluoedd yr adnoddau mae eu hangen arnynt i wneud y mwyaf o'u cyfleoedd*** 28

**Blaenoriaethau a rennir** 31

**Anghenion datblygu'r gweithlu** 31

***Atodiad 1:*** *Nodau Craidd (CCUHP) a Nodau Eang (Strategaeth Tlodi Plant LlCC)* 32

***Atodiad 2:*** *Ein Hymagwedd: Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau – canolbwyntio ar ganlyniadau* 33

***Atodiad 3:*** *Ymatebion ac adborth yn dilyn ymgynghoriad* 34

# CYFLWYNIAD

***Beth yw'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc?***

Mae pob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau sy'n effeithio ar fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir y Fflint yn dod at ei gilydd ym Mhartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint (CYPP). Mae'r Bartneriaeth yn cael ei harwain gan Fwrdd aml-asiantaeth o gynrychiolwyr o'r sefydliadau hyn, gyda chyfraniadau gan blant, pobl ifanc a theuluoedd, a'r cadeirydd yw Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir y Fflint.

Diben CYPP yw gwella canlyniadau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae gwaith yr holl sefydliadau sy'n cyflwyno cymorth a gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cydlynu trwy eu haelodaeth o'r CYPP.

***Beth yw Cynllun y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc?***

Mae Cynllun CYPP – y ddogfen hon – yn cofnodi pa waith mae angen ei wneud, a chan bwy, i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yn
Sir y Fflint.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn gofyn bod pob sir yn datblygu cynllun sy'n nodi'r meysydd o flaenoriaeth a'r gweithrediadau sydd eu hangen i gyflwyno canlyniadau gwell ar gyfer pob plentyn, person ifanc a theulu, fel rhan o Ddeddf Plant 2004. Y ddogfen hon – 'Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol' – yw'r Cynllun ar gyfer Sir y Fflint.

Mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu trwy broses helaeth a chynhwysol o sgyrsiau ac ymgynghori â'r holl asiantaethau perthnasol, a gyda chyfraniad uniongyrchol gan blant, pobl ifanc a theuluoedd eu hunain.

Mae 'Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol' ar gyfer pawb rhwng 0 ac 19 mlwydd oed yn Sir y Fflint, yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, a gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc sy'n gadael gofal hyd at 25 mlwydd oed. Mae'n gynllun 'ymbarél', sy'n cael ei ategu gan nifer mwy o gynlluniau penodol sy'n rhoi manylion ynglŷn â'r hyn fydd yn cael ei wneud, gan bwy, ac ar gyfer pwy.



Crëwyd y gwaith celf a ddefnyddir trwy'r ddogfen hon o syniadau a ddatblygwyd mewn sesiynau ymgynghori â phlant a phobl ifanc (2011)

## *Cyflawni ein cyfrifoldebau*
Wrth ddatblygu a chyflwyno canlyniadau o fewn y strategaeth hon, mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cydnabod y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bydd yn ymateb i'w chyfrifoldebau oddi mewn iddi.

Hefyd, byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â'r ymrwymiadau a wnaed o fewn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain, ac ategu gweledigaeth LlCC ar gyfer yr iaith Gymraeg pan fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2011[1] a Mesur y Gymraeg (2010).

Mae Partneriaeth CYP yn ymrwymedig i hawliau plant a phobl ifanc, fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)[2]. Mae hefyd yn ategu nodau o fewn Strategaeth Tlodi Plant Cymru[3] sy'n cynnwys y nodau canlynol o berthnasedd penodol i'r Cynllun hwn:

- Gostwng nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi di-waith
- Gwella lefel sgiliau rhieni a phobl ifanc mewn teuluoedd incwm isel fel y gallant sicrhau gwaith â chyflog da.
- Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ym meysydd iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella'r canlyniadau ar gyfer y tlotaf.

## *Datblygu'r gweithlu*
Rydym hefyd wedi ystyried anghenion datblygu'r gweithlu i gyflwyno canlyniadau pennawd, ac rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ac ieithoedd a diwylliannau eraill, a byddwn yn ystyried hyn wrth gyflwyno'r canlyniadau.

## *Archwiliad o ddigonolrwydd gofal plant 2011*
Mae darpariaeth gofal plant hygyrch a fforddiadwy yn rhan hanfodol o helpu rhieni (gan gynnwys rhieni ifanc) i gael mynediad at gyflogaeth neu gyfleoedd dysgu.

Rydym wedi llunio archwiliad o'n darpariaeth Gofal Plant. Mae'r "Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant" wedi ein helpu i ddeall anghenion gofal plant yn y sir a sut y gellir eu rheoli neu eu datblygu gydag adnoddau presennol, yn unol â'r angen.

(Mae Atodiad 1 yn crynhoi sut y mae Nodau CCUHP a gofynion y Strategaeth Tlodi Plant yn berthnasol).

---

[1] Iaith Fyw: Iaith Byw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010 (Ymgynghoriad)
[2] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: http://www.unicef.org/crc/
[3] Strategaeth Tlodi Plant Cymru: (2011) http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/policy/110203newchildpovstrategy2en.pdf

## BYW YN SIR Y FFLINT – YR HYN RYDYM NI EI EISIAU AR GYFER EIN PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD

### Mae aelodau o CYPP eisiau i holl blant, pobl ifanc a theuluoedd Sir y Fflint fod yn ddiogel, yn iach ac yn rhydd o dlodi, anfantais ac anghydraddoldebau cyfle.

Er gwaethaf cyfoeth canfyddedig cyffredinol Sir y Fflint, cydnabyddir bod nifer o ardaloedd daearyddol o amddifadedd sylweddol yn y sir. Mae'r asesiad anghenion/proffil iechyd yn rhoi darlun mwy llawn i ni o fanylion hyn, ac yn rhoi gwybodaeth ynglŷn ag anghenion cymorth teuluoedd Sir y Fflint yn 2011. Mae ein gwaith ymgynghori diweddar wedi cadarnhau'r canfyddiadau hyn ac mae wedi dangos bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn yr ardaloedd hyn, mewn risg cynyddol o'r canlynol:-

- Dioddef salwch, a lles corfforol a meddwl gwael
- Marw yn gynt na'u cyfoedion
- Bod yn llai llwyddiannus yn yr ysgol/addysg bellach
- Bod yn ymglymedig neu gael profiad o weithgarwch troseddol
- Bod yn rhiant yn eu harddegau a/neu ddioddef iechyd rhywiol gwael
- Wynebu diweithdra neu allu i ennill is
- Bod yn ofalwr anffurfiol ar gyfer un neu fwy o berthnasau
- Bod â hunan-barch isel, a sgiliau bywyd a strategaethau ymdopi cyfyngedig
- Bod yn ddioddefwr uniongyrchol camdriniaeth ddomestig neu fyw mewn cartref lle mae camdriniaeth ddomestig, materion camddefnyddio sylweddau a/neu ddibyniaethau eraill yn bodoli

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i ni dargedu ein gwasanaethau at y rheiny sy'n fwyaf agored i niwed, y rheiny sydd â'r lefelau uchaf o angen a'r rheiny sydd lleiaf tebygol o wneud newidiadau heb gymorth ychwanegol, fel pan mae:

- Gan blentyn a/neu riant anabledd/salwch hir dymor/llesgedd sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau dyddiol (gan gynnwys problem iechyd meddwl neu anabledd dysgu)
- Y plentyn/plant yn cael eu cydnabod fel plentyn mewn angen ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu sy'n blentyn/person ifanc y gofelir amdano
- Nid Cymraeg/Saesneg yw iaith gyntaf y teulu
- Teulu'n byw mewn llety anaddas o ansawdd gwael
- Gan y teulu incwm cartref isel
- Tystiolaeth o gamdriniaeth ddomestig a/neu gamddefnyddio sylweddau yn y cartref
- Gan un neu fwy o rieni anghenion dysgu ychwanegol/wedi bod dan ofal Awdurdod Lleol yn flaenorol
- Tystiolaeth bod gan un neu fwy o aelodau'r teulu hanes o droseddu
- Magu'r plant yn amhriodol a/neu'n anghyson
- Plentyn yn cael ei wahardd neu mewn risg o gael ei wahardd o'r ysgol
- Mam yn iau na 18 mlwydd oed

## *Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth*

Mae gan bob unigolyn, gwasanaeth a sefydliad sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, gyfrifoldeb a rennir i wella canlyniadau a gwneud newid cadarnhaol ar gyfer pawb, yn arbennig i'r grwpiau sydd dan yr anfantais fwyaf a grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol wedi'i hen sefydlu yn Sir y Fflint, ac rydym yn ymrwymedig i'r egwyddorion creiddiol canlynol sy'n hysbysu ein gweledigaeth, ein canlyniadau pennawd a'n hegwyddorion allweddol, ac a fydd yn dylanwadu ar ein strategaeth comisiynu yn y dyfodol.

## *Ein nod yw:*

Gweithio gyda'n gilydd i fodloni anghenion pob plentyn, person ifanc a theulu yn Sir y Fflint, wrth sicrhau nad yw ffiniau sefydliadol yn dod yn rhwystrau.

Mewnosod strategaeth datblygu'r gweithlu yn ein cynllun i dyfu, datblygu a chadw gweithlu hyfforddedig, profiadol a medrus.

## *Byddwn yn:*

Canolbwyntio ein hymdrechion ar atal ac ymyriad cynnar i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd, gan leihau'r angen am ymyriadau dwys, cost uwch yn hwyrach.

Cynllunio gyda'n gilydd, rhannu blaenoriaethau a chyflwyno'r canlyniadau arfaethedig fel y nodir yn y Cynllun hwn, trwy hyrwyddo ffyrdd arloesol a mwy effeithiol o weithio i wneud newidiadau cynaliadwy cadarnhaol.

## *Byddwn yn gwneud hyn trwy:*

Weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, a'u cynorthwyo i helpu eu hunain, mewn ffyrdd ac ar gyflymder sy'n addas i'w hanghenion nhw.

Cynnig mynediad at y gwasanaethau iawn ar yr amser iawn, integreiddio gwasanaethau ac arferion, lle a phryd y bo'n briodol.

Defnyddio adnoddau i sicrhau'r gwerth gorau am arian, gan gynnwys trwy gomisiynu strategol ar y cyd.

## *Ein hegwyddorion a gwerthoedd*

Rydym wedi cyfuno ein cryfderau i ddatblygu'r canlyniadau arfaethedig trwy weithio'n agos â sefydliadau i ymgysylltu'n gyfan gwbl â rhanddeiliaid. Er mwyn parhau â hyn, mae angen i ni:-
Provide the right services and support at the right time in the right place with a focus on prevention and build on what works already
Take action to deliver real change and make a positive difference
Focus on improving outcomes rather than on structures

### *Sicrhau cynhwysiad yn hytrach nag allgau*

Hyrwyddo cydlyniad ac amrywiaeth cymunedol a bod â meddwl agored.
Ymgysylltu â'n grwpiau defnyddwyr gwasanaeth yn barhaus i werthuso ac ymateb i anghenion.

### *Canolbwyntio ar y teulu nid ar y gwasanaeth*

Darparu'r gwasanaethau a'r cymorth cywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, gan ganolbwyntio ar atal ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio.
Cymryd camau i gyflwyno newid gwirioneddol a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.
Canolbwyntio ar wella canlyniadau yn hytrach nag ar strwythurau.

### *Meddwl ymlaen yn hytrach na bod yn statig*

Bod yn hyblyg ac ymatebol i anghenion newidiol.
Defnyddio newidiadau a cheisio cyfleoedd i wella'n barhaus.
Bod yn greadigol ac arloesol o ran gwthio Strategaeth Tlodi Plant Cymru trwy Raglen Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir y Fflint.

### *Galluogi a rhoi grym; gwrando ac ymateb*

Datblygu strwythurau i gynorthwyo rhieni i gynorthwyo eu teulu.
Cynorthwyo plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau i fod yn hunanddibynnol, i wneud dewisiadau gwybodus ac adeiladu cydnerth.
Ymgysylltu rhanddeiliaid yn gyfan gwbl mewn dylunio a chyflwyno.
Parchu pob safbwynt ac ymateb i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym.
Estyn allan i blant, pobl ifanc, teuluoedd a gofalwyr, a bod yn agored i herio.

### *Darparu arweinyddiaeth*


Parhau'n ymrwymedig i'n gweledigaeth a'n gwerthoedd.
Gosod cyfeiriad eglur, bod yn fentrus gyda phenderfyniadau a sicrhau atebolrwydd.
Herio perfformiad gwael.
Annog arfer nodedig.

## *GWNEUD GWAHANIAETH CADARNHAOL YNG NGHYMRU: Cefnogi 'Ein Dyfodol Iach'*

Cyhoeddwyd y fframwaith strategol cyntaf ar gyfer iechyd cyhoeddus yng Nghymru (a ddatblygwyd gan y Prif Swyddog Meddygol) ym mis Hydref 2009. Mae ein Papur Gwaith Technegol 'Ein Dyfodol Iach' (OHF)[4] yn nodi deg canlyniad blaenoriaethol a chwe thema mewn ymateb i'r achosion mwyaf o salwch y gellir eu hatal ledled Cymru. Wrth gyflwyno yn erbyn OHF, bydd partneriaid sy'n gweithio yn Sir y Fflint yn datblygu a chyflwyno gweithgareddau yn erbyn ystod eang o gynlluniau gweithredu lleol. Mae 'Ein Dyfodol Iach' wedi cael ei ddefnyddio i lywio datblygu Cytundeb Canlyniadau'r Awdurdod Lleol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal ag amrywiaeth o gynlluniau a pholisïau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

## *GWNEUD GWAHANIAETH CADARNHAOL YN SIR Y FFLINT: Cynorthwyo dyfodol iach ar gyfer pobl sy'n byw neu'n gweithio yn Sir y Fflint*

Mae'r Cynllun 'Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol' yn un o nifer o gynlluniau lefel uchel neu 'ymbarél' sy'n gysylltiedig â gwella bywydau ac amgylchiadau byw pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Sir y Fflint. Mae pob un yn cynorthwyo, ac yn cael ei gynorthwyo gan y lleill:




[4] LlCC: Ein Dyfodol Iach – Papur Gwaith Technegol 1 (2009). http://wales.gov.uk/docs/phhs/publications/100527technicalen.pdf

## SYMUD YMLAEN

Nod y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yw ychwanegu gwerth at drefniadau cynllunio presennol, gyda Bwrdd y CYPP yn gwneud aelodau yn atebol am gyflwyno'r canlyniadau pennawd cytûn.

Byddwn yn adolygu ac yn addasu cyflwyno gweithrediadau, ar sail gwerthuso ein cynnydd. Mae is-grwpiau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi cael eu sefydlu, ac wedi cael y cyfrifoldeb o lunio cynlluniau blynyddol i gyfrannu ar y cyd at y canlyniadau. Bydd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn adeiladu ar arfer nodedig ac yn amlygu a datblygu cydweithio rhanbarthol yn ystod 2011 - 2014.

## Crynodebau Gweithredu

Mae'r 'siartiau crynodeb Maes Gweithredu' sy'n dilyn yn dangos sut rydym yn bwriadu canolbwyntio yn 2011-2014, sut rydym yn gwybod pa beth fydd llwyddiant, a sut byddwn oll yn gweithio i gyfrannu a mesur y cyfraniadau at y canlyniadau.

Mae'r holl grynodebau Maes Gweithredu yn gydgysylltiol a bydd pob un yn ychwanegu gwerth at y lleill; bydd y cysylltiadau manwl rhwng pob un yn cael eu hystyried wrth ddatblygu gweithgareddau yn ystod pob cam o'r cyflwyno.

Rydym hefyd wedi cynnwys enghreifftiau o'r cyflawniadau a wnaed yn ystod y tair blynedd diwethaf (2008-2011) fel rhan o Gynllun blaenorol Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint. Mae'r cyflawniadau penodol a amlygir yn cael eu hategu gan y rheiny o wasanaethau craidd sefydliadau partner; mae'n bwysig cofio'r cyfraniad arwyddocaol y bydd y rhain yn parhau i wneud yn ystod hyd oes y Cynllun newydd hwn.



# Maes Gweithredu 1: Sicrhau y gofelir am blant a phobl ifanc



***Bydd pob plentyn yn Sir y Fflint yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Os cawn afael ar broblemau'n gynnar, byddwn yn gallu atal y rhain rhag dod yn broblemau mwy yn y dyfodol.***

## *Yn y tair blynedd diwethaf, rydym wedi:*

- Datblygu'r Strategaeth Rhianta a Chynllun Gweithredu, a sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rhaglenni Rhianta www.flintshire.gov.uk/parentscentre
- Datblygu pecyn gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio gyda theuluoedd
- Dethol Dechrau'n Deg Sir y Fflint fel astudiaeth achos yng ngham un a cham dau o werthusiad cenedlaethol Dechrau'n Deg - bydd negeseuon allweddol o'r ymchwil hon yn llywio cynllunio ar gyfer gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar integredig.
- Cyflwyno rhaglen dreigl o raglenni rhianta ledled Sir y Fflint, gyda Dechrau'n Deg/Cychwyn Cadarn/Rhieni Cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu:
  - Cysylltiadau Teuluol/Magu Plant
  - Rhaglen Babanod Webster Stratton
  - Rhaglen Plant Bach Webster Stratton
- Darparu hyfforddiant i rieni sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen, gan y Tîm Iaith a Chwarae (*Chatterbox Playtimes*)
- Blaenoriaethu amlygu menywod sy'n dioddef problemau iechyd meddwl amenedigol a darparu triniaethau priodol trwy Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg a staff Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar
- Ailfrandio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) a sicrhau bod yr holl wybodaeth/eitemau hyrwyddo yn ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio tuag at gyflawni'r safonau cenedlaethol newydd ar gyfer y FIS.
- Gweithredu cynllun Brecwast Rhad ac am Ddim mewn ysgolion
- Cyflwyno'n llwyddiannus y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion cynradd
- Hyrwyddo buddion bwydo ar y fron a chymorth ar gyfer bwydo ar y fron
- Hyrwyddo rhaglenni imiwneiddio plant a phobl ifanc yn eu harddegau

## *Yn y tair blynedd nesaf, ein nod yw:*

**Cynnal ffocws ar gynorthwyo rhianta, yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru (gweler Strategaeth Rhianta Sir y Fflint – ewch i www.flintshire.gov.uk/parentscentre)**

**Sicrhau bod babanod yn cael eu geni'n iach a chanddynt bwysau iach adeg eu geni.** Mae babanod sy'n cael eu geni yn pwyso llai na 2500g yn fwy tebygol o farw neu ddioddef iechyd gwael. Hefyd, mae tystiolaeth ar gael sy'n cysylltu pwysau geni isel gyda chlefydau cronig adeg plentyndod ac oedolaeth. Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod achosion pwysau geni isel yn cynnwys mamau yn ysmygu adeg beichiogrwydd ac yn y cartref, deiet gwael, a chymryd cyffuriau neu yfed alcohol yn ormodol adeg beichiogrwydd. Bydd ein gweithrediadau yn y maes hwn yn cyfrannu at Dargedau Tlodi Plant Cymru:

- gostwng pwysau geni isel ymhlith babanod yn y pumed ran fwyaf difreintiedig o'r boblogaeth, a gostwng y gyfradd marwolaethau babanod ymhlith y pumed ran fwyaf difreintiedig o'r boblogaeth.

**Cynyddu cyfraddau bwydo ar y fron**. Mae bwydo ar y fron yn rhoi cryn fuddion iechyd i famau a babanod. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell y dylai babanod gael eu bwydo ar y fron yn gyfan gwbl ar y fron hyd nes eu bod yn chwe mis oed. Mae babanod sy'n cael eu bwydo ar y fron yn llai tebygol o ddioddef llid y stumog, heintiadau'r frest, y llwybr wrinol neu'r glust, a gordewdra adeg plentyndod. Er nad yw'n darged tlodi penodol, mae gwahaniaethau nodedig yng nghyfraddau bwydo ar y fron ymhlith grwpiau gwahanol, gyda'r gyfradd isaf o fwydo ar y fron ymhlith grwpiau economiadd-gymdeithasol is a mamau iau.

**Parhau i wella cyfraddau imiwneiddio plant**: Imiwneiddio yw un o'r mesurau iechyd ataliol mwyaf effeithiol. Mae cyfradd imiwneiddio MMR Sir y Fflint wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru, ac yn 2008-09, roedd wedi cyrraedd cyfradd o 91 y cant. Fodd bynnag, mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell lefelau imiwneiddio o tua 95% i atal achosion o glefydau. Mae tystiolaeth i awgrymu bod grwpiau penodol o blant mewn risg o fod yn gysylltiedig â nifer isel sy'n derbyn imiwneiddiadau, e.e. plant y gofelir amdanynt, plant mewn ysbytai, y rheiny nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu, a'r rheiny o grwpiau ethnig lleiafrifol.

## *Ar ba ffurf y byddwn yn gweld llwyddiant ar ôl cyflawni ein canlyniad?*

Llai o achosion o fabanod â phwysau geni isel (h.y. llai na 2500g ar gyfer baban unigol) a marwolaethau babanod (nifer marwolaethau babanod o dan 1 mlwydd oed, y 1,000 o enedigaethau byw mewn blwyddyn benodol).
Nifer cynyddol yn bwydo ar y fron ac yn parhau i fwydo ar y fron am o leiaf chwe mis ar ôl geni.
Cyflawni cyfraddau o 95% neu fwy ar gyfer imiwneiddiadau plentyndod cynnar, gan gynnwys y rheiny sydd mewn risg o fod yn gysylltiedig â nifer isel sy'n derbyn imiwneiddiadau.

**Strategaethau Cenedlaethol / Polisïau / Sbardunau**

- Y Cyfnod Sylfaen
- Rhaglen Dechrau'n Deg
- Diogelu Plant
  Gweithio gyda'n gilydd - Deddf Plant (2004)
- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth (2006)
- Deddf Gofal Plant (2006)
- Mesur Plant a Theuluoedd (2009)
- Strategaeth Tlodi Plant (2010)
- Archwiliad Digonolrwydd Gofal Plant
- Cynllun i Ychwanegu Gwerth:
  Cynllun Strategol y Trydydd Sector (2008)

**Strategaethau / cynlluniau lleol**

- 'Iechyd Da, Gofal Da' Strategaeth Iechyd, Gofal a Lles 2011- 2014
- Cynllun Cyflwyno Lleol 14-19
- Strategaeth Gymunedol
- Cynllun Gweithredol y Cyfnod Sylfaen
- Cynlluniau Gweithredu Cymunedau'n Gyntaf
- Strategaeth Rianta

| ***Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni?*** | ***Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni hyn?*** | ***Sut byddwn yn mesur ein cynnydd?*** |
|---|---|---|
| Babanod yn cael eu geni yn iach, a chanddynt bwysau geni iach | Cyflwyno gofal cyn geni hygyrch sy'n ymgysylltu â rhieni yn gynnar adeg beichiogrwydd.<br><br>Cynorthwyo menywod beichiog a'u partneriaid i roi'r gorau i ysmygu. | % yr achosion o feichiogrwydd sy'n cael eu cofrestru cyn 12 wythnos?<br><br>Nifer yr ysmygwyr beichiog sy'n rhoi'r gorau i ysmygu |
| Babanod yn cael eu bwydo ar y fron adeg eu geni a bod bwydo ar y fron yn parhau am o leiaf 6 mis. | Cynorthwyo i newid agwedd a newid diwylliannol fel mai bwydo ar y fron yw'r norm<br><br>Cynorthwyo/ ymestyn mentrau presennol i alluogi mamau i barhau i fwydo ar y fron hyd nes bod y plentyn yn 6 mis oed | Nifer yr adeiladau sy'n 'gyfeillgar i fwydo ar y fron'<br><br>% y mamau sy'n bwydo ar y fron adeg geni<br><br>% y mamau sy'n parhau i fwydo ar y fron am 6 mis |
| Plant a phobl ifanc yn derbyn imiwneiddiadau cynnar o fewn yr amserlen argymelledig | Hyrwyddo derbyn imiwneiddiadau trwy'r holl waith cymorth rhianta<br><br>Dulliau targedu i sicrhau bod teuluoedd sy'n debygol o golli cyfleoedd imiwneiddio yn cael helpu i gael mynediad atynt | Bod gwybodaeth sy'n hyrwyddo imiwneiddio plant ar gael yn eang<br><br>Nifer cynyddol yn derbyn imiwneiddiadau ymhlith grwpiau penodol o'r boblogaeth |

# Maes Gweithredu 2: Bod plant a phobl ifanc yn barod, yn abl ac yn cael eu hannog i ddysgu




***Bydd llawer o gyfleoedd dysgu gwahanol ar gael i holl blant a phobl ifanc Sir y Fflint, yn yr ysgol neu goleg a thu allan iddynt, fel y gallant ddatblygu sgiliau i'w defnyddio trwy gydol eu bywydau.***

***Yn y tair blynedd diwethaf, rydym wedi:***

- Parhau i ddatblygu prosiectau Cychwyn Cadarn, Dechrau'n Deg a Genesis.
- Sefydlu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys chwarae cyn ysgol, a'r ddarpariaeth *Chatterbox Playtime*.
- Galluogi'n weithredol, fynediad at addysg ffurfiol ac anffurfiol i blant a phobl ifanc anabl, gan hyrwyddo cymhwysiad gyda'u cyfoedion
- Datblygu cymorth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc o'r gymuned o deithwyr Sipsi
- Lansio 'Prosiect Cefnogi Cyrhaeddiad' i weithio gyda phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o addysg prif ffrwd. Roedd yn cynnwys Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint, Gyrfa Cymru, Tîm Mynediad FCC a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC).
- Cefnogi prosiect 'cymorth bydi' mewn Clybiau Ieuenctid i alluogi pobl ifanc ag anabledd i fynychu a chymryd rhan.
- Datblygu cyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer pobl ifanc 14 -19 mlwydd oed, gan gynnwys prosiect garddio cymunedol mewn tai gwarchod ar gyfer pobl hŷn, a oedd yn cynnwys Ysgol Maes Hyfryd, Ysgol Uwchradd y Fflint, Age Concern a Groundwork.
- Galluogi pobl ifanc yn y system Cyfiawnder Ieuenctid i ymgysylltu â chyfleoedd dysgu anffurfiol

## *Yn y tair blynedd nesaf, ein nod yw:*

**Cynyddu presenoldeb mewn ysgolion -** Mae ysgolion yn cael effaith bwysig ar fywydau a datblygiad plant a phobl ifanc, gan ddylanwadu ar hunan-barch, uchelgeisiau, ymddygiadau iechyd a bodlonrwydd tymor hwy â bywyd. Mae ymchwil yn awgrymu bod disgyblion o gefndiroedd dan anfantais yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol: mae cydberthynas rhwng cyfran y disgyblion sydd â hawl cael prydau ysgol rhad ac am ddim a chyfradd absenoliaeth.

**Datblygu sgiliau hanfodol** - Mae sgiliau hanfodol yn sylfaenol i symud ymlaen yn y dyfodol trwy'r system addysg, a thrwy fywyd. Pa bynnag lwybr gyrfa a ddewisir, bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu, cyfathrebu a defnyddio technoleg gwybodaeth yn rhan angenrheidiol ohono. Mae methu â darllen ac ysgrifennu yn arwahanu ac mae'n gysylltiedig â rhagolygon gwael o ran swyddi a chanlyniadau cymdeithasol gwael ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.

**Cefnogi cyrhaeddiad -** Mae cyfrannau uchel o ddisgyblion sy'n gwneud yn dda ym myd addysg pan yn 15/16 mlwydd oed yn parhau mewn addysg amser llawn a gallant fynd ymlaen i addysg uwch. Un o dargedau tlodi plant Cymru yw na ddylai unrhyw ddisgybl adael addysg amser llawn heb gymhwyster cymeradwy. Mae targedau eraill yn gysylltiedig â chanran y disgyblion 15 mlwydd oed sy'n cyflawni TGAU gradd A* - C ym mhob un o'r pynciau craidd. Byddwn hefyd yn annog pobl i ennill profiad a chyflawniadau ehangach trwy gyfrannu at wirfoddoli, gweithgareddau'r sector ffydd a mentrau cymunedol.

## *Ar ba ffurf y byddwn yn gweld llwyddiant ar ôl cyflawni ein canlyniad?*

- Presenoldeb gwell yn yr ysgolion/ colegau / lefelau is o absenoldebau anawdurdodedig gan bob disgybl a myfyriwr, gan gynnwys y rheiny sydd fwyaf mewn risg o ddiffyg presenoldeb.
- Canlyniadau gwell blwyddyn ar ôl blwyddyn ym mhob Cyfnod Allweddol, gan gynnwys y grwpiau hynny sydd fwyaf mewn risg o gyflawniad gwael.
- Cynnydd yng nghyfran disgyblion blwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg amser llawn.
- Llai o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) a bydd y nifer yn parhau i ostwng.
- Nifer uwch a mwy o amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, ac ar gyfer hyfforddiant a dysgu yn y gwaith.

**Strategaethau Cenedlaethol / Polisïau / Sbardunau**

- Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru (2001)
- Ysgolion Bro (2003)
- Strategaeth Effeithiolrwydd Ysgolion (2008)
- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cynghori mewn Ysgolion yng Nghymru (2008)
- Cynllun i Ychwanegu Gwerth: Cynllun Strategol y Trydydd Sector (2008)
- Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (2009)
- Rhaglen RAISE
- Strategaeth Tlodi Plant (2010)

**Strategaethau / cynlluniau lleol**

- Strategaeth Cynhwysiad
- Teuluoedd yn Gyntaf – Tîm o Gwmpas y Teulu
- Cynllun Cyflwyno Lleol 14-19
- Strategaeth CAMHS
- Cynllun Diogelwch Cymunedol
- Rhaglenni Cychwyn Cadarn / Dechrau'n Deg
- Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint

| ***Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni?*** | ***Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni hyn?*** | ***Sut byddwn yn mesur ein cynnydd?*** |
|---|---|---|
| Bod plant yn barod ar gyfer yr ysgol, a gallant elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu | Sicrhau bod pob plentyn oedran cyn ysgol yn defnyddio darpariaethau sydd ar gael, gan eu teilwra i waith gyda'r teulu ar gyfer grwpiau agored i niwed<br><br>Sicrhau y cydnabyddir rhwystrau ariannol a rhwystrau eraill i ddysgu a'u goresgyn lle bo'n bosibl | Data asesu 'mynediad i'r ysgol' sylfaenol – i'w ddatblygu<br><br>Data o werthusiad y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf<br><br>Data i'w bennu |
| Bod yr holl blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth priodol i gyflawni eu potensial | Sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn deall ac yn cael mynediad at gymorth ar gyfer anghenion ychwanegol eu plentyn<br><br>Cydymffurfio â'r Mesur Dysgu a Sgiliau (LlCC 2009)<br><br>Gostwng nifer y symudiadau o un ysgol i'r llall ar gyfer plant y gofelir amdanynt | Datganiadau'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlen argymelledig / adborth ar y cymorth a ddarparwyd<br><br>Asesiadau Perfformiad y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2<br><br>Data i'w bennu |
| Bod yr holl blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint yn datblygu sgiliau sy'n berthnasol i gael mynediad at waith neu hyfforddiant | Sicrhau bod pob plentyn yn ennill sgiliau llythrennedd / rhifedd<br><br>Cyflwyno rhaglenni hyfforddi sgiliau hanfodol achrededig<br><br>Datblygu cyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer pobl ifanc | Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3<br>% yr oedolion oedran gweithio sy'n gymwysedig i NQF Lefel 2 neu uwch<br>Cyrchfan y rheiny sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13<br>Data gwirfoddoli i'w bennu |

# Maes Gweithredu 3: Bod gan blant a phobl ifanc ffordd iach o fyw




***Bydd iechyd plant a phobl ifanc yn cael ei amddiffyn a bydd ffordd o fyw iach yn cael ei hyrwyddo. Bydd gwasanaethau i helpu'r rheiny sydd yn sâl, sydd ag anabledd neu unrhyw anawsterau eraill***

## *Yn y tair blynedd diwethaf, rydym wedi:*

Ymgysylltu â phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau gan Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn prosiect i archwilio sut y byddent yn hoffi i weithwyr proffesiynol o fewn CAMHS gael eu hyfforddi. Cyfrannodd y gwaith hwn at y gwasanaeth yn cael ei enwi'n 'Darparwr CAMHS Arbenigol y Flwyddyn' Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Datblygwyd rhaglen hyfforddi hefyd gan ddefnyddio technegau creadigol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.

- Parhau i ymgysylltu'n weithredol â'r Rhaglen Ysgolion Iach.
- Gweithio'n agos â'r Grŵp Atal Gordewdra Plant (dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru) i ymgysylltu pob sector â mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gordewdra. Datblygodd grŵp aml-asiantaeth DVD gyda rhieni a phlant i ysbrydoli rhieni eraill i gymryd rhan mewn hyfforddiant bwyta'n iach achrededig (mae DVD *A Taste for learning* ar gael o cypp@flintshire.gov.uk)
- Datblygu '*Active 8-16*' (rhaglen gweithgarwch corfforol yn dilyn cyfeiriad) i weithio gyda phlant â phroblemau ymddygiad neu reoli pwysau, problemau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd neu faterion hunan-barch y gellid eu gwella trwy gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol. Mae cael eu cyfeirio at '*Active 8-16*' yn caniatáu i'r bobl ifanc gael eu cynorthwyo i fynychu sesiynau 'mynediad agored'

## *Yn y tair blynedd nesaf, ein nod yw:*

- **Gostwng y nifer sydd dros bwysau a gordewdra:** mae cynnal pwysau iach ar gyfer taldra adeg plentyndod a llencyndod yn bwysig, gan y gall arwain at ordewdra adeg oedolaeth, gyda risg cynyddol o glefyd y galon a strôc. Gall canlyniadau seicolegol anffafriol godi hefyd – mae cyfran sylweddol o bobl ifanc yn anhapus gyda'u pwysau, ac yn dioddef hunan-barch isel o ganlyniad.
- **Sicrhau bod pobl ifanc yn tyfu fyny yn "ddi-fwg":** Ysmygu yw'r achos mwyaf o salwch a marwolaeth y gellir ei osgoi yng Ngogledd Cymru; mae atal plant rhag dechrau ysmygu yn flaenoriaeth allweddol.
- **Gwella iechyd deintyddol:** Mae iechyd deintyddol gwael yn un o'r clefydau mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar blant yng Nghymru, ac i raddau helaeth, gellir ei atal. Mae cydberthynas nodedig rhwng lefelau pydredd dannedd plant ac amddifadedd cymdeithasol.
- **Cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol**: Mae gweithgarwch corfforol yn bwysig i ddatblygiad plant a phobl ifanc. Mae buddion iechyd yn cynnwys ysgogi twf, ffitrwydd, datblygu sgiliau cymdeithasol, cynorthwyo i reoli pwysau, a budd cyffredinol i les.

## *Ar ba ffurf y bydd llwyddiant?*

- Ni fydd plant a phobl ifanc dros bwysau na dan bwysau ar gyfer eu hoedran a'u taldra, fel y mesurir gan 'arolwg taldra a phwysau plant'
- Bydd nifer cymedrig y dannedd wedi pydru, sydd ar goll neu sydd wedi cael eu llenwi (dmft) y plentyn, fel y mesurir yn yr arolwg iechyd deintyddol blynyddol, yn gostwng
- Bydd cyfran y plant a phobl ifanc sy'n bodloni'r canllawiau argymelledig ar gyfer gweithgarwch corfforol yn cynyddu
- Bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn angen yn derbyn asesiadau cyfannol ac amrywiaeth o wasanaethau cymorth i warchod eu hiechyd a'u lles, a mabwysiadu ffordd iach o fyw.

**Strategaethau Cenedlaethol / Polisïau / Sbardunau**

- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (2006)
- Blas am Oes (2007)
- Cynllun Gwên (Cynllun Gweithredu Iechyd Geneuol) (2008)
- Ein Dyfodol Iach (2009)
- Mesur Plant a Theuluoedd (2009)
- Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion (2009)
- Strategaeth Tlodi Plant (2010)

**Strategaethau / cynlluniau lleol**

- *'Iechyd Da, Gofal Da'* Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2011-2014
- Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint
- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
- Cynllun Busnes LSCB
- Cynlluniau Gweithredu Cymunedau'n Gyntaf
- Llunio Cynllun Sir y Fflint Egnïol
- Strategaeth Diogelwch Cymunedol
- Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

***Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni?***

Ni fydd plant a phobl ifanc yn ysmygu, byddant yn bwysau iach ar gyfer eu hoedran a'u taldra, a bydd ganddynt ddannedd iach

***Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni hyn?***

Hyrwyddo dim ysmygu fel y norm a chynnig Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu i bobl ifanc, pan fo angen

Cynnig rhaglenni bwyta'n iach sy'n canolbwyntio ar y teulu

Sicrhau bod dewisiadau iach yn cael eu hyrwyddo ym mhob lleoliad lle gall plant brynu bwyd.

Rhoi mynediad at ddŵr yfed mewn ysgolion ac ardaloedd hamdden.

***Sut byddwn yn mesur ein cynnydd?***

Datblygu data parthed ysmygu

Nifer y rhaglenni 'bwyta'n iach' a gyflwynir; adborth gan gyfranogwyr parthed newid mewn ymddygiad

Archwilio'r ddarpariaeth fwyd

Archwilio argaeledd dŵr yfed

---

**Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni:** Bydd plant a phobl ifanc yn weithgar yn gorfforol am o leiaf 30 munud, 5 gwaith yr wythnos.

**Beth fyddwn yn ei wneud:**

Hyrwyddo 'ffordd o fyw gweithgar' fel y norm

Cyflwyno rhannau perthnasol o Gynllun Llunio Sir y Fflint Egnïol

**Sut byddwn yn mesur:**

Data parthed teithio gweithgar i'r ysgol i'w ddatblygu

Llunio diweddariadau chwarterol / blynyddol ar gyfer Sir y Fflint Egnïol

---

**Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni:** Bydd gwasanaethau i gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd â lefelau uchel o angen yn cael eu cyflwyno yn unol â model 'Teuluoedd yn Gyntaf'.

**Beth fyddwn yn ei wneud:**

Datblygu a chyflwyno gwasanaethau integredig ar draws asiantaethau, gyda chyfeiriadau cyffredin a llwybrau asesu

**Sut byddwn yn mesur:**

Data i werthuso Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i'w ddatblygu
Data ychwanegol o Adolygiadau Diogelu Plant (Set Ddata Gwasanaethau Plant)

# Maes Gweithredu 4: Bod plant a phobl ifanc yn cael amser a lle i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau




***Yn y tair blynedd diwethaf, rydym wedi:***

- Sefydlu '*NEW Play*' fel Fforwm Chwarae Rhanbarthol i gynghori, cynorthwyo a chynllunio cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc
- Gweithredu'r camau yn Strategaeth Chwarae Sir y Fflint i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc sydd â mynediad rheolaidd at ystod eang o gyfleoedd chwarae o fewn eu cymunedau eu hunain.
- Cynorthwyo ystod eang o fentrau chwarae'r sector ffydd a rhai eraill y sector gwirfoddol / trydydd sector.
- Cyflwyno cyfres o 'Gynlluniau Chwarae dros yr Haf' sy'n cael eu cefnogi gan Uned Chwarae Sir y Fflint. Mae mynediad i blant ag anableddau yn cael ei gefnogi gan 'gynllun bydi'.
- Datblygu Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint fel datganiad eglur o ddibenion Gwaith Ieuenctid, ac ymrwymiad Cyngor Sir y Fflint i gefnogi cyfleoedd o ansawdd uchel i bobl ifanc
- Gwella'r ddarpariaeth chwarae ddwyieithog, trwy ymgysylltu â Twf, Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, a chryfhau'r gwaith rhwng Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint, Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith Sir y Fflint
- Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli sydd wedi cael eu cydnabod gan achrediadau a dyfarniadau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu fel rhan o Flwyddyn y Gwirfoddolwr Ewropeaidd ar gyfer 2011.

## *Yn y tair blynedd nesaf, ein nod yw:*

- **Cynyddu argaeledd a mynediad at leoedd diogel a fforddiadwy i gyfarfod** ar gyfer gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol - er mwyn sicrhau iechyd a lles gorau posibl. Dylai *pob* plentyn a pherson ifanc (heb ystyried eu galluoedd na'u hamgylchiadau) allu mwynhau ac elwa o amrywiaeth o weithgareddau hamdden. Gall bod yn aelod o sefydliad, grŵp neu glwb ddarparu mynediad pwysig at grŵp o gyfoedion, a chyfleoedd i gyfarfod â phobl o ystod ehangach o gefndiroedd na allai fod yn bosibl trwy gysylltiadau teuluol, yn yr ysgol neu'r gymdogaeth yn unig
- **Darparu cymorth priodol** lle bo angen er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anabledd yn cael mynediad teg at wasanaethau chwarae a hamdden, gan gynnwys darpariaeth cyn ysgol, clybiau ar ôl ysgol, a chynlluniau chwarae amser gwyliau a darpariaeth gwasanaeth ieuenctid.
- **Datblygu gwasanaethau allgymorth arloesol** ar gyfer plant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer grwpiau targedig o'r boblogaeth a allai fel arall gael eu hallgáu o'r ddarpariaeth sydd ar gael, e.e. trwy brosiectau iaith a diwylliant
- **Defnyddio 'Strategaeth Cyfranogiad' Llywodraeth Cynulliad Cymru** i danategu ein holl waith.

## *Ar ba ffurf y bydd llwyddiant?*

- Bydd mwy o weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol ar gyfer plant a phobl ifanc
- Bydd pob gweithiwr chwarae yn cyflawni'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gwaith Chwarae
- Bydd plant a phobl ifanc yn gallu cyfrannu yn yr iaith y maen nhw'n ei ddewis
- Bydd pob gwasanaeth a sefydliad yn deall sut i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i'w galluogi i gymryd rhan.

**Strategaethau Cenedlaethol / Polisïau / Sbardunau**

- *Iaith Pawb* – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog (2003)
- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth (2006)
- Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru (2007)
- Cynllun i Ychwanegu Gwerth: Cynllun Strategol y Trydydd Sector (2008)
- Creu Cymru Egnïol (2009)
- Y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru (2009)
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae

**Strategaethau / cynlluniau lleol**

- Strategaeth Chwarae Cyngor Sir y Fflint
- Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid
- Llunio Cynllun Sir y Fflint Egnïol
- Strategaeth Hamdden Sir y Fflint
- Cynlluniau Gweithredu Cymunedau'n Gyntaf
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

***Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni?***

Mynediad cynyddol i blant a phobl ifanc at weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol ffurfiol ac anffurfiol

Bod pob grŵp o'r boblogaeth (gan gynnwys y rheiny sydd fwyaf mewn risg o gael eu heithrio o gymryd rhan) yn gallu cael mynediad ac yn gallu fforddio'r ddarpariaeth a'r gweithgareddau

Bod plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn deall pwysigrwydd gweithgareddau chwarae a hamdden, a'u bod yn gallu cael mynediad ac yn gallu fforddio'r cyfleoedd

***Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni hyn?***

Cynnal a hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael

Defnyddio ymchwil yr Uned Chwarae, ehangu'r ddarpariaeth o gymorth ar gyfer grwpiau targedig e.e. Cynllun Bydi

Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn weithredol, a mentrau cymdeithasol

Cynnig dewisiadau fforddiadwy e.e. hyrwyddo llyfrgelloedd / darpariaeth ddiwylliannol, cyfleoedd i nofio'n rhad ac am ddim.

Darparu cymorth priodol wedi'i deilwra, lle bo angen

Pwysleisio pwysigrwydd chwarae mewn Rhaglenni Rhianta

Datblygu mentrau newydd / allgymorth, sy'n cynnwys stadia chwaraeon symudol y gwasanaethau ieuenctid, yr Ysgol Goedwig, a.y.y.b.

***Sut byddwn yn mesur ein cynnydd?***

Archwilio'r ddarpariaeth

Data o systemau monitro presennol sy'n gysylltiedig ag anghenion cymorth

% y plant ag anableddau sy'n bresennol mewn clybiau ar ôl ysgol / gwyliau

Data o'r Biwro Gwirfoddol / Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

% y bobl ifanc sy'n defnyddio llyfrgelloedd

Data parthed y defnydd o wasanaethau hamdden

% yr ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Data pellach i'w ddatblygu

Data i'w ddatblygu parthed mynediad at grwpiau chwarae, defnyddio Llyfrgelloedd Teganau, Bagiau Llyfrau a.y.y.b.

Archwilio darpariaethau

Arfer nodedig sy'n cael ei gydnabod gan ddyfarniadau

# Maes Gweithredu 5: Bod plant a phobl ifanc yn cael eu parchu ym mhob rhan o'u bywydau




***Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eu clywed pan wneir penderfyniadau sy'n effeithio arnynt***

## *Yn y tair blynedd diwethaf, rydym wedi:*

- Ymgysylltu pobl ifanc â recriwtio staff ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori mewn Ysgolion a Chydlynydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc.
- Datblygu sesiwn hyfforddi ar gyfer oedolion ar gyfranogiad pobl ifanc - a oedd yn cynnwys pobl ifanc o Ysgol Alun, yr Wyddgrug, fel rhan o'r prosiect '*Young People Say*' a ariannwyd gan Achub y Plant.
- Mewn partneriaeth â'r prosiect CLIC Cenedlaethol, ailddatblygu gwefan 'Fflintyr Ifanc', a ail–lansiwyd yn 2010. Mae'r wefan bellach yn cael ei chynnal gan grŵp o Olygyddion Ifanc (YFYEGS)
- Cynllunio a chyflwyno digwyddiad *'Young @ ♥'*, lle'r oedd plant, pobl ifanc a phobl hŷn yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect pontio'r cenedlaethau i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Mae hyn wedi ysgogi syniadau ar gyfer prosiectau pontio'r cenedlaethau yn y dyfodol.
- Parhau i hwyluso pobl ifanc i fynychu Cyfarfodydd y Bartneriaeth Pobl Ifanc, a gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaethau i ddatblygu atebion i faterion sy'n cael eu codi gan bobl ifanc.
- Datblygu cysylltiadau rhwng Urdd Gobaith Cymru a'n cymunedau o deithwyr sipsi â phobl ifanc o Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint i rannu materion a gweithgareddau diwylliannol.

Datblygu prosiect menter gymdeithasol (US UnLtd) gyda phobl ifanc ddigartref, fel rhan o'r rhaglen Cynorthwyo Pobl

***Yn y tair blynedd nesaf, ein nod yw:***

- **Annog pob plentyn a pherson ifanc i wneud penderfyniad ystyrlon** ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau nawr, ac yn y dyfodol. Wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau, mae'n rhaid ystyried a thargedu'n weithredol, anghenion a safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n cael eu tangynrychioli neu sy'n 'anodd eu cyrraedd'. Mae teimlo rheolaeth dros eich amgylchiadau eich hun yn elfen bwysig o les.
- **Gwerthfawrogi pob plentyn a pherson ifanc** fel aelodau o gymdeithas, gan barchu eu hamrywiaeth a pheidio â gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu hil, diwylliant, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. Gall pob ffurf o wahaniaethau gael effaith ddifrifol a pharhaus ar iechyd a digwyddiadau mewn bywyd y rheiny sy'n ei ddioddef
- **Helpu pob plentyn a pherson ifanc i wybod beth yw eu hawliau a'u deall.** Gall gwasanaethau eirioli gynorthwyo plant a phobl ifanc i gael mynediad at eu hawliau a rhoi grym iddynt wneud hynny. Mae'r hawl i fynegi safbwyntiau yn dod yn arbennig o bwysig pan mae pobl yn canfod bod pethau'n mynd o chwith, neu'n anfodlon â gwasanaeth.

***Ar ba ffurf y bydd llwyddiant?***

- Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu a'u hannog i gyfrannu eu safbwyntiau at wneud penderfyniadau a bywyd cymdeithas. Bydd Cynghorau Ysgolion a Fforymau Ieuenctid yn rhan fywiog ac effeithiol o ffurfio'r agenda
- Bydd gwefan Fflintyr Ifanc yn adnabyddus fel y ffynhonnell wybodaeth ganolog ar gyfer (ac ynglŷn â) plant a phobl ifanc; bydd ymweliadau ac adborth ar y safle'n cynyddu
- Bydd cyfraddau bwlio a throseddau casineb yn gostwng, a byddant yn parhau i ostwng
- Bydd gwasanaethau eirioli cyffredinol yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc
- Bydd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc o ansawdd uchel

**Strategaethau Cenedlaethol / Polisïau / Sbardunau**

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) (1990)
- Iaith Pawb - Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog (2003)
- Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (2007)
- Mesur Plant a Theuluoedd (2009)
- Strategaeth Tlodi Plant (2010)

**Strategaethau / cynlluniau lleol**

- Cynllun Bwrdd Lleol Diogelu Plant
- Cynlluniau Gweithredu Cymunedau'n Gyntaf
- Iechyd Da, Gofal Da – Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2011-2014.
- Strategaeth y Gwasanaethau Ieuenctid
- Strategaeth Rhianta
- Cynllun Diogelwch Cymunedol

| ***Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni?*** | ***Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni hyn?*** | ***Sut byddwn yn mesur ein cynnydd?*** |
|---|---|---|
| Bod plant a phobl ifanc yn weithgar yn eu cymunedau eu hunain a byddant yn ymglymedig â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'u hamgylchiadau | Rhoi cyfleoedd ar gyfer cynrychiolaeth a sicrhau bod y rheiny sydd fwyaf mewn risg o gael eu hallgáu / ymyleiddio, yn cael eu cynorthwyo i arwain a chymryd rhan mewn materion.<br><br>Diweddaru'r Strategaeth Cyfranogiad / hyrwyddo gwefan Fflintyr Ifanc<br><br>Cyflwyno nod barcud / sicrwydd ansawdd cymryd rhan. | Data parthed cymryd rhan mewn cyfleoedd cynrychiadol strwythuredig i'w ddatblygu<br><br>Gweithredu argymhellion asesu'r gwasanaeth Arolygu Ieuenctid<br><br>Diweddaru'r Strategaeth Cyfranogiad; data parthed ei weithrediad i'w ddatblygu<br><br>Ymweliadau â gwefan Fflintyr Ifanc |
| Bod pob plentyn a pherson ifanc yn hyderus, yn hunanddibynnol ac yn rhoi / derbyn derbyniad parchus o'u gwahaniaethau diwylliannol | Adeiladu ar waith strategaeth gwrth-fwlio<br><br>Cynorthwyo'r rhaglen 'Parchu Eraill' | Data i'w ddatblygu |
| Hyrwyddo Hawliau CCUHP ac ymwybyddiaeth eirioli yn weithredol a'u gosod yn hyfforddiant y gweithlu. | Pwysleisio hawliau plant a phobl ifanc mewn rhaglenni ymsefydlu staff a datblygiad proffesiynol parhaus<br><br>Datblygu a hyrwyddo mynediad at eiriolaeth gyffredinol a thargedig | Archwiliad o gynnwys rhaglen hyfforddi<br><br>Archwiliad o'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth eirioli |

# Maes Gweithredu 6: Bod plant a phobl ifanc yn ddiogel



***Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag pethau a allai eu hatal rhag tyfu a datblygu. Bydd cymorth ar gyfer teuluoedd i'w helpu i ymdopi ag unrhyw anawsterau y maent yn eu hwynebu.***

## *Yn y tair blynedd diwethaf, rydym wedi:*

- Datblygu adnoddau a digwyddiadau i gynorthwyo 'Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio' Llywodraeth Cynulliad Cymru. Daeth i ben gyda *'Respectfest 11',* lle'r oedd plant a phobl ifanc yn gallu archwilio gwrth-fwlio a pharch mewn modd rhyngweithiol. Gobeithir y bydd *Respectfest* yn dod yn ddigwyddiad blynyddol.
- Cynnal cyfres o weithdai mewn ysgolion uwchradd i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â materion trais rhywiol. Comisiynwyd yr ymagwedd bwerus ac effeithiol iawn hon gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a CYPP, a'i chyflwyno gan Gwmni Theatr *Cat's Paw*.
- Sefydlu Tîm Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc i leihau effaith niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau, alcohol a sylweddau ar bobl ifanc, eu teuluoedd a'r gymuned. Mae'r tîm hefyd yn defnyddio Uned symudol, y '*Night Dragon*', i'w helpu yn eu gwaith ledled y Sir.
- Darparu addysg ac offer diogelwch yn y cartref i deuluoedd â phlentyn o dan 3 blwydd oed
- Datblygu diffiniad o 'lety priodol' er mwyn sicrhau bod ymatebion i bobl ifanc digartref / pobl ifanc mewn risg o fod yn ddigartref, o safon uchel.
- Cynorthwyo rhieni i gael mynediad at raglenni cynorthwyo rhianta.
- Hyrwyddo gweithio'n agos a dysgu arfer da a rennir rhwng Bwrdd Lleol Diogelu Plant a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

## *Yn y tair blynedd nesaf, ein nod yw:*

**Datblygu'r ymagwedd 'Tîm o gwmpas y Teulu' at gyflwyno gwasanaethau**: mae gan ymyriadau 'systemau cyfan' sy'n cynnwys elfennau adfer, amddiffynol ac ataliol, y potensial i wella cyfleoedd bywyd teuluoedd mewn anhawster, yn ogystal â chyflwyno arbedion effeithiolrwydd costau.

**Sicrhau bod pob teulu (gan gynnwys teuluoedd sy'n agored i niwed) yn byw mewn llety priodol.** Mae cael lle i fyw yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer iechyd. Heb gartref diogel, ac amgylchedd diogel, ni fydd plant a phobl ifanc yn debygol o gyflawni eu llawn botensial.

**Cynyddu cyfleoedd hyfforddi ar y cyd** (yn Sir y Fflint a gyda siroedd cyfagos), a **gwella rhannu gwybodaeth** ynglŷn ag anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd fel bod ymatebion yn amserol ac yn effeithiol.

## *Ar ba ffurf y bydd llwyddiant?*

- Bydd plant a phobl ifanc sydd â lefelau uchel o angen yn derbyn y gwasanaethau integredig mwyaf priodol.
- Ni fydd plant a phobl ifanc yn ddigartref nac yn byw mewn llety dros dro neu annigonol (gan gynnwys llety gwely a brecwast)
- Bydd plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymdogaethau
- Bydd yr holl blant y gofelir amdanynt, y rheiny sydd wedi gadael gofal, a phlant ag anableddau yn cael eu hasesu, eu cynorthwyo ac yn cael pŵer priodol i gael annibyniaeth lawn

**Strategaethau Cenedlaethol / Polisïau / Sbardunau**

- Rhaglen Cynorthwyo Pobl (2003)
- Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau (2006)
- Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (2007)
- Mesur Plant a Theuluoedd (2009)
- Cymru'n Cyd-dynnu – Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru (2009)
- Egwyddorion Cenedlaethol / Safonau ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd (2010)

**Strategaethau / cynlluniau lleol**

- Cynllun Diogelwch Cymunedol
- 'Iechyd Da, Gofal Da', Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2011-2014
- Cynlluniau Gweithredu Cymunedau'n Gyntaf
- Strategaeth Dai Cyngor Sir y Fflint
- Cynllun Gweithredu'r Fforwm Cam-drin Domestig
- Cynllun Busnes y Bwrdd Lleol Diogelu Plant

***Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni?***

Cynorthwyo teuluoedd mewn anhawster trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a / neu gymorth priodol arall, i leihau effeithiau negyddol tymor byr neu dymor hwy ar les a diogelwch

Cynyddu rhannu gwybodaeth

Bod pob plentyn, person ifanc a theuluoedd yn byw mewn llety diogel sy'n addas i'w hanghenion, mewn cymdogaethau sy'n ddiogel

Bod plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cael eu hystyried yn 'agored i niwed' (gan gynnwys y rheiny sy'n gadael gofal a phlant ag anableddau) yn gallu byw bywydau annibynnol, gyda chymorth priodol lle bo angen

| ***Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni hyn?*** | ***Sut byddwn yn mesur ein cynnydd?*** |
|---|---|
| Datblygu ymagwedd Tîm o Gwmpas y Teulu, gydag asesiadau cyfannol a chymorth yn seiliedig ar anghenion<br><br>Sicrhau bod gwaith rhyngasiantaethol yn 'ddi-dor' | Data gwerthuso ymagwedd 'Tîm o Gwmpas y Teulu' / Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i'w datblygu<br><br>Adborth gan deuluoedd |
| Datblygu llety a chymorth priodol<br><br>Cefnogi cyfleoedd i wella tai / effeithlonrwydd ynni<br><br>Gwneud y gorau o gyfleoedd ymagweddau 'Cynadledda Cymunedol' | Data o ymatebion i deuluoedd sy'n ddigartref neu sydd mewn angen tai<br><br>Data i'w ddatblygu |
| Cynnal archwiliad mapio o deuluoedd sy'n agored i niwed o'r ymagwedd Tîm o Gwmpas y Teulu<br><br>Asesu a pharatoi i fodloni'r anghenion sy'n codi adeg trawsnewid o fywyd a gwasanaethau 'plant' i 'oedolion' | Canlyniadau'r Archwiliad Mapio<br><br>Data i'w ddatblygu ar y cyd â darparwyr gwasanaethau oedolion perthnasol |

# Maes Gweithredu 7: Bod gan blant, pobl ifanc a theuluoedd yr adnoddau mae eu hangen arnynt i wneud y mwyaf o'u cyfleoedd




***Bydd teuluoedd, plant a phobl ifanc Sir y Fflint yn gallu gwneud y gorau o fywyd a chyrraedd eu llawn botensial, hyd yn oed pan nad oes wastad ganddynt ddigon o arian.***

## *Yn y tair blynedd diwethaf, rydym wedi:*

- Cyflwyno Prosiect Cymorth Cenedlaethol Sgiliau Sylfaenol ar gyfer Grwpiau mewn Risg o Allgáu Cymdeithasol, wedi'i gefnogi gan ddarpariaeth amlasiantaeth
- Datblygu is Undebau Credyd mewn ysgolion lleol, mewn partneriaeth â Byrddau Cymunedau'n Gyntaf
- Wedi sicrhau bod cyngor a chymorth ynglŷn â dyledion ar gael i deuluoedd trwy'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth
- Helpu asiantaethau partner a phobl ifanc yn Sir y Fflint i fwydo i mewn i ddatblygiad Strategaeth Tlodi Plant Cymru, a fydd yn hysbysu datblygiad Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir y Fflint
- Cyfrannu at flaenoriaeth strategol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol o 'Wneud y Gorau o Gyfleoedd' ar gyfer pobl Sir y Fflint, a chynorthwyo gweithredu parhaus.
- Cynorthwyo pobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu i wneud y gorau o'u mynediad at ddysgu, gwaith a hamdden.
- Gweithio ar y cyd â sefydliadau gwirfoddol i ddatblygu ac achredu hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc wrth eu paratoi ar gyfer dysgu pellach / datblygu sgiliau / gwaith

## *Yn y tair blynedd nesaf, ein nod yw:*

***Gwneud y gorau o incwm teulu***: Er mwyn goresgyn anfantais sy'n gysylltiedig ag incwm, mae'n rhaid i amgylchiadau ariannol a materol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ganiatáu iddynt fforddio deiet cytbwys iach, cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, dysgu a hamdden, a chael amodau byw a gwasanaethau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu personoliaeth, doniau, a galluoedd meddwl a chorfforol. Mae cyfran uchel o ymholiadau i Ganolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint a gwasanaethau tebyg yn ymwneud â cheisiadau am wybodaeth ynglŷn â budd-daliadau lles / credydau treth, gan gynnwys Gwiriadau Budd-daliadau Lles llawn a chynorthwyo gyda cheisiadau Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant, sy'n awgrymu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pob teulu'n gallu cyflawni eu potensial.

***Gwella lefelau sgiliau rhieni a phobl ifanc*** mewn teuluoedd incwm isel fel y gallant sicrhau gwaith â chyflog da. Er nad yw bod mewn gwaith yn gwarantu rhyddid o dlodi a'i anfantais gysylltiedig, mae'n debygol o'i wneud yn llai tebygol.

***Lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella canlyniadau'r tlotaf***: gall plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn tlodi mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft, gael profiad o anfantais benodol gan fod diffyg gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n ysgogi ac annog twf a datblygiad yn eu cymunedau. Gall byw ag anfantais ar gyfer rhai pobl ifanc olygu bod yn gyfarwydd â'r fath gyfyngiadau, ac felly, lleihau disgwyliadau uniongyrchol byw, a chyfyngu ar ddyheadau ar gyfer y dyfodol.

## *Ar ba ffurf y bydd llwyddiant?*

- Bydd gwasanaethau i hyrwyddo'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau, rhoi cyngor ar ddyledion a datblygu sgiliau llythrennedd ariannol ar gael yn eang ledled y sir
- Bydd cyfran yr oedolion sy'n ennill Sgiliau Sylfaenol, a phobl ifanc sy'n parhau i mewn i addysg bellach ac addysg uwch yn cynyddu
- Bydd nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi di-waith yn gostwng
- Bydd cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sydd â hawl cael prydau ysgol rhad ac am ddim, plant a phobl ifanc y gofelir amdanynt, a'r rheiny mewn grwpiau sy'n agored i niwed, yn gwella
- Bydd cymorth yn cael ei dargedu at deuluoedd y cydnabyddir eu bod yn arbennig o agored i niwed.

**Strategaethau Cenedlaethol / Polisïau / Sbardunau**

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (1990)
- Mesur Plant a Theuluoedd (2009)
- Partneriaethau Cryfach ar gyfer Canlyniadau Gwell (2006)
- Strategaeth Tlodi Plant (2010)

**Strategaethau / cynlluniau lleol**

- POB strategaeth / cynllun partneriaeth, sefydliadol, adrannol a gwasanaeth, gan gynnwys y rheiny o'r sectorau gwirfoddol, cymunedol a ffydd.

| ***Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni?*** | ***Beth fyddwn yn ei wneud i gyflawni hyn?*** | ***Sut byddwn yn mesur ein cynnydd?*** |
|---|---|---|
| Bod gan bob teulu adnoddau ariannol ac adnoddau eraill digonol i gael mynediad at ffordd iach o fyw a chyflawni eu potensial | Cyflwyno / hyrwyddo ymgyrchoedd nifer sy'n derbyn budd-daliadau a gwasanaethau cyngor ar ddyledion, ardaloedd i'w targedu a theuluoedd sy'n fwyaf mewn risg o incwm isel<br><br>Cynorthwyo i ddatblygu cydweithfeydd bwyd, undebau credyd a Banciau Amser | Data i'w ddatblygu<br><br>Archwiliad o ddarpariaeth berthnasol: lleoliad, cyfranogiad a.y.y.b. |
| Bod gan rieni, plant a phobl ifanc y sgiliau angenrheidiol a'u bod yn gallu cael mynediad at waith a hyfforddiant ystyrlon | Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu 'sgiliau hanfodol'<br><br>Datblygu cymorth newydd ac adeiladu ar gymorth presennol ar gyfer teuluoedd i gynyddu sgiliau, mynediad at waith a hyfforddiant | Data i'w ddatblygu<br><br>% y myfyrwyr ym Mlwyddyn 11 / Blwyddyn 13 sy'n parhau mewn addysg amser llawn<br><br>% y bobl ifanc 16-18 mlwydd oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET)<br><br>Data ychwanegol i'w ddatblygu |
| Bydd y teuluoedd mwyaf agored i niwed yn derbyn y cymorth mwyaf | Datblygu a chyflwyno gwasanaethau integredig ar draws asiantaethau, gyda chyfeiriad cyffredin a llwybrau asesu | Data i werthuso ymagwedd 'Tîm o Gwmpas y Teulu' / Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i'w ddatblygu |

## BLAENORIAETHAU A RENNIR

Rydym yn cydnabod bod nifer sylweddol o flaenoriaethau a rennir a chysylltiadau â nifer o strategaethau yn Sir y Fflint, a gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru.

Mae nifer o ganlyniadau 'Iechyd Da – Gofal Da' (Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (2011 - 2014)) a'r Cynllun Diogelwch Cymunedol yn cyfrannu at y canlyniadau a restrir yn y Cynllun 'Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol' hwn.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar berthnasoedd gweithio mewn partneriaeth effeithiol a chyfleoedd hyfforddi a rennir, a'u datblygu, fel bod iechyd a lles y boblogaeth, a'r gwasanaethau a ddarperir i'w cynorthwyo yn cael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon.

## ANGHENION DATBLYGU'R GWEITHLU

Mae cyflwyno'r gwasanaeth yn dibynnu ar hyfforddiant, sgiliau, cymhelliant a rheolaeth ein gweithlu. Bydd cydnabod y rôl hanfodol y mae ein staff yn ei chwarae o ran sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer ein plant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir y Fflint, yn cynnwys

- galluogi ac annog gweithio a hyfforddi integredig ar gyfer pob partner
- datblygu'r ymagwedd 'Tîm o Gwmpas y Teulu'
- hyrwyddo'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gweithio gyda rhieni
- datblygu'r Nod Barcud Ansawdd Cyfranogiad gyda phob partner perthnasol
- parhau i ddatblygu ymwybyddiaeth o amrywiaeth a sgiliau dwyieithog o fewn y gweithlu
- recriwtio a hyfforddi hyfforddwyr dysgu, staff gofal plant, gwirfoddolwyr a staff cymorth arbenigol
- annog pobl ifanc a menywod sy'n dychwelyd i'r gwaith i archwilio dewisiadau ar gyfer cyflogaeth o fewn gofal plant, chwarae a gwaith arall gyda phlant a phobl ifanc.



## Nodau Craidd (CCUHP) a Nodau Eang (Strategaeth Tlodi Plant LlCC)

***Nod Craidd 1:*** **DYLAI POB PLENTYN GAEL DECHRAU'N DEG MEWN BYWYD –**
***Nod Eang –*** *Cynorthwyo rhianta plant*

***Nod Craidd 2:*** **DYLAI POB PLENTYN A PHERSON IFANC GAEL MYNEDIAD AT YSTOD GYNHWYSFAWR O GYFLEOEDD HYFFORDDI, ADDYSG A DYSGU**
***Nod Eang*** – *Lleihau anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad addysgol rhwng plant. Helpu pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant*

***Nod Craidd 3:*** **DYLAI POB PLENTYN A PHERSON IFANC FWYNHAU IECHYD CORFFOROL, MEDDWL, CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL GORAU POSIBL A BOD YN RHYDD O GAMDRINIAETH, ERLEDIGAETH A CHAMFANTEISIO**
***Nod Eang*** – *Lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng plant a rhwng rhieni plant (cyn belled ag sy'n angenrheidiol i sicrhau lles eu plant)*

***Nod Craidd 4:*** **DYLAI POB PLENTYN GAEL MYNEDIAD AT WEITHGAREDDAU CHWARAE, HAMDDEN, DIWYLLIANNOL A CHWARAEON**
***Nod Eang –*** *Lleihau anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden, rhwng plant a rhwng rhieni plant (cyn belled ag sy'n angenrheidiol i sicrhau lles eu plant)*

***Nod Craidd 5:*** **DYLID GWRANDO AR BOB PLENTYN A PHERSON IFANC, A DYLID EU TRIN Â PHARCH, A DYLID CYDNABOD EU HUNANIAETH HILIOL A DIWYLLIANNOL**
***Nod Eang –*** *Helpu pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau*

***Nod Craidd 6:*** **DYLAI POB PLENTYN A PHERSON IFANC GAEL MYNEDIAD AT GARTREF A CHYMUNED DDIOGEL SY'N ATEGU LLES CORFFOROL AC EMOSIYNOL**
***Nod Eang –*** *Sicrhau bod pob plentyn yn tyfu i fyny mewn tŷ gweddus. Sicrhau bod pob plentyn yn tyfu i fyny mewn cymuned ddiogel a chydlynol*

***Nod Craidd 7:*** **NI DDYLAI UNRHYW BLENTYN NA PHERSON IFANC FOD DAN ANFANTAIS OHERWYDD TLODI**
***Nod Eang*** – *Cynyddu incwm cartrefi sy'n cynnwys un neu fwy o blant, gyda'r bwriad o sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol yn rhesymol , nad oes unrhyw gartref yn y grŵp incwm perthnasol. Sicrhau bod, cyn belled ag sy' n ymarferol yn rhesymol, nad oes plant sy'n byw mewn cartrefi yn y grŵp incwm perthnasol wedi'u hamddifadu i raddau mawr.*

**ATODIAD 2**

## EIN HYMAGWEDD: ATEBOLRWYDD AR SAIL CANLYNIADAU – CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU

Gwnaethom addasu'r fethodoleg Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau[5] fel sail yr ymgynghoriad o'r hyn y gwnaethom ddatblygu cynnwys y Cynllun hwn, gan ymgysylltu'n gyfan gwbl â'n rhanddeiliaid, sefydliadau lleol ac unigolion yn y broses hon. Mae ein hymagwedd saith cam yn cael ei grynhoi yma:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ble ydym ni eisiau bod?<br>(h.y. pa ganlyniadau o ran amodau lles rydym ni eu heisiau ar gyfer y boblogaeth darged) | Amlygwch y boblogaeth a'r hyn rydym eisiau ei gyflawni (y canlyniadau) |
| 2. | Petawn ni'n gallu gweld y canlyniadau hyn, sut olwg/teimlad/ar ba ffurf y byddent? | Disgrifiwch (mewn geiriau) y profiad (sut olwg/teimlad/ ar ba ffurf y byddai). Hwn yw'r bont rhwng y canlyniadau a'r dangosyddion, a gall fod yn amnewidyn dros dro ar gyfer data lle nad oes data'n bodoli. |
| 3. | Pa wybodaeth / data sydd gennym i fesur y canlyniadau rydym ni eu heisiau? | Amlygu dangosyddion a dewis pa un/rhai sydd fwyaf pwysig ac addysgiadol. |
| 4. | Ble ydym ni nawr yn erbyn y mesurau mwyaf pwysig? | Sicrhau data sylfaenol, a rhagweld sut y mae'n debygol o newid os na wneir rhywbeth gwahanol. Pam mae pethau fel y maen nhw wedi bod? Beth sydd y tu ôl i'r data? |
| 5. | Pwy all wneud pethau'n 'well'? | Amlygu pwy all helpu, casglu eich partneriaid |
| 6. | Beth allem ni ei wneud rydym ni'n gwybod fydd yn gweithio? | Amlygu'r hyn y gellid ei wneud gan un neu fwy o'r partneriaid. Beth / pwy yw'r blaenoriaethau, a pham? Beth ellir ei wneud heb unrhyw gost ychwanegol?<br><br>Ymchwilio eich atebion |
| 7. | Beth ydym ni'n mynd i'w wneud? | Drafftio'r Cynllun a'i grynodebau gweithredu ar gyfer 2011-2014 |

[5] Friedman M (2005): *Trying Hard is not Good Enough. Trafford Publishing.*

## YMATEBION AC ADBORTH YN DILYN YMGYNGHORIAD

Cynhyrchodd y broses ymgynghori dros 200 o ymatebion gan unigolion, grwpiau a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys ymatebion gan blant, pobl ifanc, rhieni a theuluoedd[6]. Gwnaethom gydnabod y gellid mynd i'r afael â rhai materion ar lefel genedlaethol yn unig. Fodd bynnag, lle gellid mynd ag ymatebion yn eu blaenau gan y CYPP lleol, rydym wedi sicrhau bod ein crynodebau gweithredu yn ystyried hyn. Mae'r awgrymiadau hyn wedi bod yn allweddol o ran amlygu anghenion a thueddiadau a fydd yn parhau i lywio cynlluniau gweithredu yn y dyfodol i gynorthwyo pob canlyniad. Cyflwynom ymagwedd bartneriaeth yn ein sesiynau ymgynghori a hwyluswyd gan amlasiantaethau, a wnaeth gyfoethogi'r adborth a'n galluogi ni i gyrraedd amrywiaeth eang o randdeiliaid wrth i ni ddefnyddio sgiliau staff sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn uniongyrchol.

Cododd nifer o themâu cyffredin yn ystod y broses ymgynghori:

- Mae angen annog plant a phobl ifanc i gael dyheadau.
- Mae plant a phobl ifanc yn deall y negeseuon y maen nhw'n eu derbyn, ond nid ydynt bob amser yn gallu gweithredu arnynt, e.e. maen nhw'n deall y neges ynglŷn â ffordd o fyw iach, fodd bynnag, mae cludiant a fforddiadwyedd yn faterion mwy cymhleth.
- Mae pobl yn dweud bod ganddynt atebion o fewn eu sefydliadau eu hunain, ac mae angen i ni weithio fwy ar y cyd i rannu'r rhain.
- Dylai teuluoedd cyfan gael eu cynorthwyo i wella eu hamgylchiadau a'u lles eu hunain, a'u galluogi i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ble a phryd y mae ei angen arnynt.
- Nodwyd pwysigrwydd plant yn tyfu i fyny mewn 'tai gweddus'.
- Mae angen i ni sicrhau bod plant yn cael eu hannog yn erbyn ffurfio arferion iechyd negyddol, e.e. ysmygu /defnyddio sylweddau /bwyta'n afiach /yfed dan oedran.
- Amlygwyd yr angen i ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd sy'n ystyried materion ieithyddol, diwylliannol a llythrennedd i gyflwyno negeseuon i grwpiau penodol o bobl, a'r angen i'w gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at wasanaethau cymorth.
- Bydd annog cyfranogiad ac ymglymiad ym mhob agwedd o gyflawni'r canlyniadau rydym ni eu heisiau yn gofyn am amrywiaeth eang o ddulliau a chydweithrediad rhwng partneriaid. Mae angen i ni gadw rhanddeiliaid yn gysylltiedig.
- Amlygwyd pwysigrwydd gwaith pontio'r cenedlaethau gan bob grŵp oedran.
- Cydnabuwyd a gwerthfawrogwyd ein hamrywiaeth a'n cryfderau diwylliannol.
- Nodwyd a chydnabuwyd ein gwaith partneriaeth bresennol fel cryfder.

---

[6] Gellir gwneud cais am fwy o fanylion ynglŷn â'n hymgynghoriad oddi wrth y Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc cypp@flintshire.gov.uk

**“Gwneud Gwahaniaeth Cadarnhaol”**

**Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu’r cynllun hwn.**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board